# <u>Grŵp Trawsbleidiol ar Faterion Pobl Fyddar | Cofnodion</u>

*Dydd Iau, 28 Ebrill 2022 am* 10.00, - *Drwy Zoom*

<u>**Y rhai a oedd yn bresennol:**</u>

**Mark Isherwood AS** - Cadeirydd
**Callum Mclean** – Ysgrifenyddiaeth, Cyngor Cymru i Bobl Fyddar
**Alison Bryan**
**Anthony Evans -** Dehonglydd BSL / aelod o NRCPD
**Debbie Thomas** – Pennaeth Polisi a Dylanwadu yng Nghymru, Y Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar. **Emma lliffe** - ABSLTA
**Helen Faulkes -** Dehonglydd BSL
**Jacqui Bond** – Gweithiwr Cymdeithasol
**Jill Hipson -** ABSLTA
**John Day -** Awdioleg BIP Betsi Cadwaladr
**Karen Robson** – Cyfarwyddwr, Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol Pobl Fyddar, Cymru
**Louise Sweeney** – Prif Swyddog Gweithredol, Cyngor Cymru i Bobl Fyddar
**Mark Davies -** Ymddiriedolwr, COS/NWDA
**Nigel Williams** – Grŵp Cymorth Mewnblaniad yn y Cochlea De Cymru
**Rhun ap Iorwerth** - AS
**Rob Wilks** – Darlithydd, Prifysgol De Cymru
**Sarah Angove -** BATOD Cymru
**Sheila Squire -** BATOD Cymru
**Stuart Parkinson -** Ymchwilydd a Swyddog Datblygu, ABSLTA

<u>**Ymddiheuriadau**</u>:

**Altaf Hussain AS**
**Peredur Owen Griffiths AS**
**Russell George AS**
**Cathie Robins-Talbot**
**Eleri Griffiths**
**Julia Terry**
**Lyndsey Stringer**
**Martin Griffiths**
**Naila Noori**
**Nicola George**
**Robin Ash**
**Stephen Brattan-Wilson**

<u>**Cymorth cyfathrebu**</u>

**Hilary Maclean** – Cofnodwr Llais i Destun
**Julie Doyle -** Dehonglydd Iaith Arwyddion Prydain (BSL)
**Rachel Williams** – Dehonglydd Iaith Arwyddion Prydain

## Cyflwyniad ac ymddiheuriadau

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Soniwyd hefyd y gallai'r cyfarfod nesaf gael ei gynnal ar ffurf hybrid, o bosibl, pe bai hynny'n addas i bawb yn y Grŵp.

## Deddf BSL (Cymru)

Cyflwynodd **Rob** ei hun, a nododd fod y ddeddf BSL wedi'i phasio'n ddiweddar yn y Senedd, a'i bod yn cwmpasu Cymru a Lloegr a'r Alban, ond nid yw'n cynnwys materion sydd wedi'u datganoli, fel addysg ac iechyd. Nododd y **Cadeirydd** ei fod wedi siarad yn ddiweddar yn y siambr ynghylch bil BSL yng Nghymru, ac atebodd y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol fod Cymdeithas y Byddar Prydain (BDA) wedi'i chomisiynu i gynnal archwiliad o bolisïau Iaith Arwyddion Prydain a darpariaeth gwasanaethau Llywodraeth Cymru. Mae'r **Cadeirydd** wedi cysylltu'n ddiweddar â Chadeirydd y BDA, sydd ar hyn o bryd yn y broses o ailgyflwyno'r archwiliad BSL (oherwydd bod Llywodraeth Cymru wedi ychwanegu rhai sylwadau, yr oedd angen eu cywiro yn y bil ar gyfer y drafft terfynol). Byddai wedyn yn cael ei drosglwyddo i Dasglu Hawliau Anabledd Llywodraeth Cymru er mwyn sicrhau bod cwmpas priodol i unrhyw ddeddfwriaeth yng Nghymru.

Nododd **Stuart** ei fod yn teimlo'n rhwystredig oherwydd yr oedi a'r diffyg cyfathrebu gan Lywodraeth Cymru o ran yr archwiliad, a'i gyhoeddi.

Ychwanegodd **Louise** y cysylltwyd â Chyngor Pobl Fyddar Cymru i ofyn i'r mudiad ddarparu cynrychiolydd ar gyfer y Tasglu dan sylw, sydd eto i gyfarfod, ond a fydd yn ymgysylltu â'r gymuned pobl fyddar ac yn ei chynnwys. Mae Consortiwm Pobl Fyddar Cymru yn cynnwys Cyngor Pobl Fyddar Cymru (WCDP), y Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar a Chymdeithas y Byddar Prydain, ac maent i gyfarfod ar ôl cyfarfod y Grŵp Trawsbleidiol hwn. Ychwanegodd y **Cadeirydd** eu bod wedi atgoffa Aelodau yn y siambr yn ddiweddar y byddai'r bil arfaethedig yn sicrhau bod gan bobl fyddar a phobl â nam ar eu clyw lais yn nyluniad a chyflwyniad y gwasanaeth.

*Camau gweithredu sy'n deillio o eitem ar yr agenda:*

- *Cysylltu â'r Tasglu Anabledd i gadarnhau pwy yw'r holl aelodau sy'n ymwneud.*
- *Cysylltu â'r BDA i sicrhau eu bod yn diweddaru'r Grŵp Trawsbleidiol hwn ar Faterion Pobl Fyddar*
- *Llythyr at y Gweinidog yn dangos y gefnogaeth gan y Grŵp hwn, a sicrhau bod y Tasglu yn cynnwys lleisiau o blith pobl fyddar eu hunain.*

## Diweddariad ar Ddehonglwyr BSL

Dechreuodd **Anthony** gyda diweddariad o'r cyfarfod blaenorol ynglŷn â thiwtoriaid BSL cymwysedig mewn ysgolion a cholegau, yn benodol y coleg a grybwyllwyd ar y pryd a oedd yn defnyddio tiwtor heb gymhwyso, sydd, ers hynny wedi cyflogi tiwtor cymwys ar ôl i'w hysbyseb swydd gychwynnol ddenu rhywfaint o sylw yn y cyfryngau cymdeithasol nad yw cymwysterau BSL yn ofynnol ar gyfer y swydd. Awgrymodd wedyn y dylai'r Grŵp anfon llythyr at y Gweinidog Addysg yn nodi ein pryderon o ran sicrhau y defnyddir canllawiau ac adnoddau priodol ar gyfer ysgolion a cholegau o ran tiwtoriaid BSL, a sicrhau mai tiwtoriaid â chymwysterau priodol a gaiff eu defnyddio.

Yr ail bwynt a godwyd oedd ffioedd/taliadau dehonglwyr BSL fesul archeb, ac nad ydynt wedi cynyddu ers blynyddoedd drwy lawer o asiantaethau, a diffyg dehonglwyr newydd er bod yr angen am ddehonglwyr BSL wedi cynyddu.

Y trydydd mater a godwyd oedd bod Dehonglwyr Iaith Arwyddion cofrestredig yn cael eu defnyddio i gyfieithu dogfennau a fideos y Llywodraeth. Yn y cyfarfod diwethaf, trafodwyd y broses dendro ar gyfer hyn, nad oedd yn nodi bod yn rhaid i'r dehonglwyr fod wedi'u cofrestru/cymhwyso'n llawn.

Gofynnodd y **Cadeirydd** pwy sy'n pennu'r cyfraddau cyflog ar gyfer y dehonglwyr, ac atebodd Anthony gan ddweud bod y dehonglwyr yn eu hanfod yn pennu eu cyfraddau eu hunain, ond bod y rhan fwyaf o'u gwaith yn dod gan asiantaethau mae eu cyflog fel arfer yn cael ei benderfynu gan yr asiantaethau dywededig yn hytrach na chyfraddau'r gweithiwr llawrydd unigol. Yna awgrymodd y Cadeirydd y dylid drafftio llythyr a'i anfon at yr NRCPD o ran pwyntiau Anthony ynghylch cofrestru a chyflog, a hefyd at Jane Hutt, sef y Gweinidog sy'n gyfrifol am faterion o'r fath, gan ei bod hi hefyd yn un o'r gweinidogion a helpodd i sefydlu'r Gwasanaeth Dehongli a Chyfieithu Cymru (WITS) i ddechrau. (Gwahoddwyd WITS fel corff i'r cyfarfod hwn ond ni chafwyd ymateb)

*Camau gweithredu sy'n deillio o eitem ar yr agenda:*

- *Llythyr at y Gweinidog Addysg ynghylch canllawiau ar Diwtoriaid BSL cymwys*

## Cyflwyniad ABSLTA

Cyflwynodd **Stuart** fideo i'r Grŵp, a oedd yn amlygu'r angen am gorff cofrestru annibynnol ar gyfer Athrawon BSL, tebyg i'r NRCPD ar gyfer Dehonglwyr. Buont hefyd yn trafod y priodoldeb diwylliannol posibl y gallai tiwtoriaid newydd fod yn ei ddefnyddio lle nad oes ganddynt, o bosibl, unrhyw brofiad o fewn y gymuned pobl fyddar eu hunain. Yna parhaodd y fideo gan fanylu ar y llwybr i'w ddilyn ar gyfer dod yn athro BSL.
Cytunodd y Grŵp y dylai pob eitem ar yr agenda heddiw, o Ddehonglwyr BSL, i athrawon a phlant byddar mewn addysg, fod yn seiliedig ar y safonau gofynnol a bod popeth arall yn dechrau gydag addysg BSL ar lawr gwlad i blant. Oherwydd, ar hyn o bryd, nid oes llawer o blant BSL rhugl, a fydd yn tyfu i fod yn oedolion lle na fyddai gan y gymuned pobl fyddar BSL gyffredinol gysylltiadau mor gryf â nhw ag y gallent eu cael. Ychwanegodd **Stuart** yr hoffent gael corff cofrestru cenedlaethol ar gyfer y DU gyfan, gan fod gan bob rhanbarth yn y DU eu safonau a'u harferion eu hunain ar hyn o bryd.

*Camau gweithredu sy'n deillio o eitem ar yr agenda:*

- *Llythyr at Weinidog y DU dros Bobl Anabl ynghylch corff ar gyfer y DU fel y gall yr holl ddarparwyr addysg a chyfathrebu gydweithio.*

## Diweddariad Cyffredinol gan NDCS

Dechreuodd **Debbie** drwy ddweud y byddai'n Wythnos Ymwybyddiaeth o Fyddardod yr wythnos nesaf, ac y byddai Bwrdd Cynghori Ieuenctid yr NDCS, sy'n cynnwys pobl ifanc fyddar, yn codi ymwybyddiaeth o fyddardod ymhlith athrawon a'r gweithlu addysgu gyda'u hymgyrch ledled y DU gyfan. Ychwanegodd fod deiseb 'Change.org.' â hanner can mil o lofnodion arni o ran y mater hwn. Yna diolchodd i'r Cadeirydd am gyflwyno datganiad yn tynnu sylw at y ddeiseb er mwyn annog rhagor o athrawon i ddysgu am fyddardod a dod yn ymwybodol ohono.

Ychwanegwyd hefyd fod y diwygiadau Anghenion Dysgu Ychwanegol yn dal i gael eu cyflwyno'n raddol, a bod gan wefan NDCS adnoddau i helpu pobl ifanc byddar ddeall y diwygiadau eu hunain.

Yna rhoddodd y wybodaeth ddiweddaraf i'r Grŵp am grŵp yn ymwneud ag Awdioleg a ddechreuwyd gan Lywodraeth Cymru mewn ymateb i adroddiad Scottish Lothian a oedd yn nodi methiannau y gwasanaethau Awdioleg yno. Sefydlwyd y grŵp yng Nghymru i sicrhau nad yw'r un peth yn digwydd yng Nghymru a bod unrhyw newidiadau angenrheidiol yn cael eu gwneud. Mae Debbie a John Day ill dau yn aelodau o'r grŵp dywededig, a thynnodd Debbie sylw at fodolaeth y grŵp a'r gwaith cadarnhaol y mae'n ei wneud. At hynny, crybwyllwyd bod yr NDCS yn siarad â'r Byrddau Iechyd er mwyn eu hannog i gynyddu cyllid i fynd i'r afael ag amseroedd aros Awdioleg pediatrig, sydd wedi cronni yn sgil y pandemig Covid-19.
Awgrymodd **John** y dylid siarad â chleifion/teuluoedd ynghylch eu profiadau, a soniwyd y gall awdiolegwyr eu hunain ddarparu data y gellir ei ddefnyddio i herio'r byrddau iechyd, ac y gallai hyn fod yn fuddiol wrth chwilio am gyllid/adnoddau pellach.
Ychwanegodd **Sarah,** fel rhan o'r tîm mewnblaniadau yn y cochlea i blant yn Ne Cymru, ac o ran gwaith y tîm hwn y byddai hi'n dweud bod y broses asesu ar ei gyfer yn benodol yn gadarn iawn ac yn mynd law yn llaw ag Awdioleg.

*Daeth y cyfarfod i ben wedi hynny. Soniwyd y gellid cynnal y cyfarfod nesaf ar ffurf hybrid os oedd hynny'n ymarferol, ac yn briodol i'r rhai â gofynion cymorth cyfathrebu.*